**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 10fed o Ebrill, 2018 am 7:30 y.h**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol -** Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ) a'r Cyng Aled Jones (AJ) tan 9pm. | |
| **1.** | **Hysbysiadau y Cadeirydd** |
| | Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. |
| **2.** | **Ymddiheuriadau -**, Olwen Roberts, Emlyn Hughes a Gwilym Williams |
| **3.** | **Datgan Diddordeb –** Neb. Tynwyd sylw'r Aelodau at ofynion Rhan 3 (Buddiannau) y Côd Ymddygiad gan y Clerc yn ystod y cyfarfod. |
| **4.** | **Diweddariadau asedau –** Dim mater yn codi y mis yma. |
| **5.** | **Cofnodion** |
| ***5.1*** | ***Cyflwyno a mabwysiadu*** |
| | Cynigodd JO fod cofnodion y 13eg o Fawrth, 2018 yn gywir. Eiliodd SW ac fe'u mabwysiadwyd. |
| ***5.2*** | ***Materion yn codi*** |
| ***5.2.1*** | **Mynwent Pistyll -** Nodwyd nad yw 'Natural Retreats' wedi bod mewn cysylltiad Gyda WJ eto. Gan hynny cynigiodd WJ fod y Cyngor yn sicrhau tri phris am dorri gwair y fynwent am eleni ar gyfer eu hystyried yng nghyfarfod Mai, 2018. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *GW i drefnu.* |
| ***5.2.2*** | **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -** *Y Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.* |
| ***5.2.3*** | **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll –** *Y Clerc i fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio pan y bydd amser yn caniatau.* |
| ***5.2.4*** | **Tir Comin -** *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Tir Comin yn lleol.* |
| ***5.2.5*** | **Iechyd a Diogelwch –** Mewn llaw. |
| ***5.2.6*** | **Ailwynebu'r B4417 o Stad Awelfryn i Hyfrydle, Llithfaen -** Nododd y Cyng Aled Jones fod y gwaith i gychwyn ar y 30 o Ebrill am oddeutu 3 diwrnod. |
| ***5.2.7*** | **Biniau Halen -** Nododd y Clerc fod cost bin graean/halen safonol yn £125, a'r gost o lenwi bin yn £45. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd WJ fod y Cyngor yn gosod bin graean (a'i lenwi) o'r ochr isaf i'r ciosg cyn i'r rhiw fynd i lawr o Stâd Bron y Foel, Pistyll. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. CYFIAWNHAU'R GOST? *Y Clerc i drefnu.*<br>Trafodwyd adborth LJ yn dilyn ei sgwrs gyda'r ymholwr a gyflwynodd gais am fin graean ger Rhesdai Mount Pleasant, Llithfaen. Cynigiodd JO na fedr y Cyngor gyfiawnhau gosod bin graean yno. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *LJ i hysbysu'r ymholwr.* |
| ***5.2.8*** | **Rhoddion -** Cynigiodd SW fod y copi o'r gyfriflen banc a gyflwynwyd yn diwallu gofynion y Cyngor ar gyfer rhoi'r rhodd o £400 a gytynwyd yng nghyfarfod Mawrth, 2018. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.* |
| ***6.*** | **Canolfan Llithfaen -** Nododd y Clerc ei fod wedi gyrru neges e-bost i'r Cyngor Sir yn holi am y cynnydd o ran hawliau penodol mynediad a hawddfreintiau. *Y Clerc i ddilyn y mater i fyny ymhellach.*<br>Gan nad yw gofynion y Cyngor o'u Cyfreithiwr annibynnol yn eglur ar hyn o bryd *gofynwyd i'r Clerc holi faint o gost sydd wedi cronni hyd yn hyn.*<br>Adroddodd y Clerc hefyd ei fod wedi archebu copi o weithredoedd cyn-gofrestru'r Ganolfan cyn belled |

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

| | |
|---|---|
| | na fyddai'r Cyngor Sir yn codi tâl amdanynt.<br>Nid yw'r cynlluniau o'r pibellau ar y safle i law eto. |
| *7.* | **Gor-yrru trwy Llithfaen** |
| **8.** | **Sedd Wag –** Cyfredol. |
| *9.* | **Ceisiadau Cynllunio –** *Cais Rhif: C18/0216/43/LL:Lleoliad Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn: Estyniad i adeilad y siop / caffi a chodi adeilad 'meddygfa' fel canolfan ddehongli hanes yr ardal a'r ganolfan.* |
| | Allbwn y drafodaeth am y cais oedd fod y mwyafrif yr Aelodau yn ei erbyn. Y sylwadau yn ei erbyn oedd i.Gorddatblygiad; ii.Ychwanegiadau cyfredol sylweddol i ôl troed y Nant; iii. Newidiadau sylweddol i gymeriad gwreiddiol y Nant. |
| | Cynigiodd SP fod y Cyngor yn gwahodd Prif Swyddog y Nant i gyfarfod y 12fed o Fehefin am ddiweddariad a sgwrs. Eiliodd JO a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.* |
| *10.* | **Polisi Iaith -** |
| | |
| *11.* | **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw -** Dim |
| *12.* | **Gohebiaeth** |
| *12.1* | **Rhaglen Grantiau 'Active Spaces'** |
| *12.2* | **Ymgynghoriad 'Cryfhau Llywodraeth Leol'** |
| *13.* | **Cyllid** |
| *13.1* | **Lwfansau Aelodau -** |
| *13.2* | **Cyfrifon 2017/18 -** |
| *13.3* | **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf** |
| | £160.00 Eurwyn Griffith (Cyflog)<br>Balans yn y Banc: Cyfredol £4496.22 Cadw £2144.38 |
| *13.4* | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod** |
| | E Griffith (Cyflog Clerc) £160.00 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 10fed o Fai, 2018 am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347